

Cynllun Corfforaethol ar Dudalen

Un Cyngor yn Gweithio Gyda'i Gilydd i Wella Bywydau

| Ein gweledigaeth | Un Cyngor yn Gweithio Gyda'i Gilydd i Wella Bywydau | | |
|--|--|---|--|
| Ein hamcanion llesiant | Yn cefnogi economi cynaliadwy llwyddiannus | Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn | Gwell defnydd o adnoddau |
| <p>Ein hamcanion llesiant</p> | <p>I gefnogi pobl leol wrth iddynt ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo.</p> <p>Creu amodau ar gyfer twf a menter.</p> <p>Creu canol trefi a chymunedau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion.</p> | <p>Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y gefnogaeth maent yn ei derbyn drwy ddarparu mynediad cynnar i gyngor a gwybodaeth.</p> <p>Lleihau galw drwy help cynnar wedi ei dargedu a rhaglenni ymyrraeth.</p> <p>Datblygu cymunedau mwy heini, iach a gwydn drwy weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol.</p> | <p>Sicrhau bod y cyngor yn gynaliadwy'n ariannol dros yr hirdymor.</p> <p>Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau, a'r mynediad atynt, drwy ail-ddylunio ein systemau a'n prosesau.</p> <p>Gweithio ar y cyd i wneud y mwyaf o asedau cyhoeddus.</p> <p>Datblygu'r sgiliau a'r diwylliant sydd eu hangen er mwyn bodloni anghenion sefydliad sy'n newid.</p> |
| <p>I gyflawni'r amcanion hyn, byddwn yn</p> | <p>Parhau â'r gwaith adfywio ffisegol i gefnogi twf a ffyniant, gan gynnwys cwblhau Neuadd y Dref Maesteg a gwerthu Maes Parcio Salt Lake.</p> <p>Tyfu gwerth twristiaeth drwy wneud y mwyaf o raglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl a rhaglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd.</p> <p>Creu canol trefi gwell drwy wella eiddo.</p> <p>Gwella gwytnwch busnes, cynorthwyo busnesau newydd a meithrin ffyrdd gwella o gaffael er mwyn helpu i roi hwb i'r economi sylfaenol.</p> <p>Gwella sgiliau a chyflogadwyedd unigolion i gynyddu eu cyfleoedd swyddi a lleihau anweithgarwch economaidd.</p> <p>Cynnal perfformiad da yng nghyfnod allweddol 4. Codi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd.</p> <p>Gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth ôl-16.</p> <p>Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.</p> | <p>Gwella ansawdd gofal a chymorth a phrydlondeb ymyraethau drwy (a) ehangu ystod o wasanaethau cymunedol wedi eu hintegreiddio i 7 diwrnod - dros ddiwrnod estynedig (b) ehangu'r gwaith amlddisgyblaethol o fewn Rhwydweithiau Clwstr Cymunedol.</p> <p>Parhau â'r gostyngiad diogel o blant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i fyw gyda'u teuluoedd.</p> <p>Galluogi grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i fod â mwy o lais a rheolaeth dros asedau cymunedol.</p> <p>Targedu defnydd o wasanaethau ymyrraeth gynnar i leihau'r galw am wasanaethau statudol.</p> <p>Cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden a diwyllianol drwy wella hygyrchedd, cael gwared â rhwystrau i gyfranogiad a chreu cymunedau sy'n ystyriol o oed.</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid i gynnig ystod o opsiynau llety i atal pobl rhag dod yn ddiartref.</p> <p>Dechrau defnyddio eiddo gwag unwaith eto, gan helpu i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy sydd ar werth neu i'w rhentu.</p> | <p>Buddsoddi £1.3 miliwn i osod technolegau syn arbed ynni a chostau er mwyn lleihau ein defnydd ynni ac allyriadau CO2.</p> <p>Rhagori ar dargedau ailgylchu cenedlaethol a chynyddu cyfleoedd i aildefnyddio deunyddiau.</p> <p>Gweithredu cynllun ynni ardal leol gynaliadwy i wella'r ôl troed carbon ar gyfer yr holl drigolion.</p> <p>Cytuno ar fframwaith gaffael ranbarthol i ddarparu economïau o raddfa.</p> <p>Hwyluso newid diwyllianol a sefydliadol i ddatblygu ein gweithlu er mwyn sicrhau eu bod â'r gallu i fodloni'r heriau presennol ac yn y dyfodol.</p> <p>Gwaredu neu ryddhau adeiladau a thir gwag i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf a lleihau ein hatebolrwydd rhent.</p> <p>Gwneud y mwyaf o leoedd mewn ysgolion a darparu ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.</p> <p>Adolygu gwariant cyfalaf a gweithredu'r gostyngiadau cyllidebol a gynlluniwyd.</p> <p>Buddsoddi mewn technoleg i wella cysylltedd yn ein hysgolion.</p> |